

## CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAI CYNHAEAF A BONTDDU

### RHEOLAU GWEINYDDU MYNWENT Y PLWYF

#### 1. CYNLLUN

Cedwir cynllun y fynwent yn dangos y gwahanol ddsbarthiadau a'u lleoliad gan Glerc y Cyngor.

#### 2. TALU FFIOEDD

Dylid talu'r ffioedd a'r taliadau sy'n ddyledus i Glerc y Cyngor, neu yn brydlon wedi derbyn derbynneb gan y Cyngor.

#### 3. AMSER CLADDEDIGAETHAU

Ni ellir cynnal claddedigaeth cyn 9.00 a.m. nac ar ôl 3.00 p.m. yn ystod yr wythnos (9.00 a.m. - 2.00 p.m. yn Rhagfyr ac Ionawr yn unig) nac ychwaith ar ôl 1.30 p.m. ar ddydd Sadwrn.

Rhaid trefnu amser y cynhebrwng i gyd-fynd â'r amser pan fydd yr orymdaith yn cyrraedd y fynwent.

Ni ellir cynnal claddedigaeth ar ddydd Sul nac ychwaith yn ystod Gwyliau Cyhoeddus oni cheir rhesymau iechydol ac oni chyflwynir tystysgrif feddygol.

#### 4. CYFLWYNO TYSTYSGRIFAU MARWOLAETH

Cyn y gladdedigaeth rhaid cyflwyno tystysgrif claddedigaeth a dderbyniwyd gan y Cofrestrydd Marwolaethau, neu Orchymyn neu Dystysgrif gan Grwner pan gynhaliwyd cwest, i'r Swyddfa Ardal. Gydag achosion o fabanod marw-anedig, bydd yn ofynnol cael tystysgrif gan y Cofrestrydd.

#### 5. TREFNIADAU GYDA CHLERIGWYR NEU WEINIDOGION

Rhaid i bobl sy'n archebu beddau wneud eu trefniadau eu hunain i gael gwasanaeth Clerigwyr neu Weinidogion yn y cynhebrwng. Gellir cynnal claddedigaeth gyda gwasanaeth crefyddol neu heb wasanaeth.

#### 6. NEILLTUO BEDDAU MEWN RHAI ACHOSION

Fel rheol ni chaniateir trefniadau sicrhau beddau. Fodd bynnag, pan gleddir cyrff mewn beddau cyffredin (h.y. pan na phrynwyd yr hawl i gladdedigaeth neilltuedig) gellir talu am ddarparu dyfnder ychwanegol, a bydd y Cyngor yn rhoi addewid i deulu'r ymadawedig na chleddir unrhyw un yn y bedd hwnnw, ar wahân i aelodau o deulu'r ymadawedig, o fewn pedair blynedd ar ddeg, neu o fewn wyth mlynedd pan gleddir plentyn dan ddeuddeng mlwydd oed. Y Cyngor sydd â'r hawl i benderfynu pwy sydd yn aelodau o'r teulu. Os na

fyddir wedi prynu'r hawl i fedd neilltuedig o'r fath wedi i'r cyfnod penodedig ddod i ben, bydd gan y Cyngor yr hawl i ddefnyddio'r bedd hwnnw yn ôl ei ewylllys.

## **7. UNIG HAWL CLADDU**

Gellir prynu'r unig hawl i gladdu mewn bedd pan gynhelir y gladdedigaeth, neu'n ddiweddarach. Fodd bynnag, oni roddwyd yr hawl hwn, ni chaniateir darparu gwaith bric, eirch nad ydynt o bren, neu godi unrhyw gofeb.

## **8. MAINT Y BEDD**

Fel arfer 2750mm x 1200mm x 2400mm o ddyfnder fydd maint bedd, a hynny ar gyfer dim mwy na dwy gladdedigaeth. Bydd beddau arbennig i blant dan 12 mlwydd oed yn mesur 1800mm x 900mm.

## **9. CLADDU GWEDDILLION AR ÔL AMLOSGI**

a) Dylid gwneud ceisiadau er mwyn claddu Gweddillion a Amlosgwyd i'r Cyngor gan dalu'r ffi briodol cyn bo unrhyw gladdu neu wasgaru gweddillion amlosgedig yn digwydd yn y fynwent.

b) Gellir claddu gweddillion ar ôl amlosgi mewn unrhyw fedd y prynwyd yr unig hawl arno. Mewn rhai mynwentydd gellir prynu llecynnau bychain 900mm yn benodol ar gyfer claddu gweddillion ar ôl amlosgi.

## **10. PARATOI BEDDAU**

Rhaid torri pob bedd a'u llenwi yn unol â chyfarwyddiadau'r Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac mae'r gwaith i'w orffen i'w foddhad ef. Gall prynwr y bedd gyflogi unrhyw un i wneud y gwaith bric neu waith arall, gyda chaniatâd ac o dan arolygaeth y Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd a Bwrdeistrefol neu'r sawl a enwebir ganddo.

## **11. BEDDAU A CHLADDGELLOEDD WEDI EU BRICIO**

Rhaid agor pob bedd neu gladdgell a friciwyd, o'r wyneb, oni phrynwyd y tir er mwyn gwneud agoriad o'r ochr. Dylid gosod slabiau o goncrid neu lechi ar ben bob arch mewn bedd neu gladdgell a friciwyd er mwyn atal aer.

## **12. WYNEB BEDDAU**

Ar ôl y cyfnod lleiafswm o 6 mis sy'n ddigonol i ganiatáu i'r pridd sy'n llenwi'r bedd ymsefydlu, dylai unrhyw berson sy'n claddu corff mewn bedd a glustnodwyd yn fedd gydag unig hawl claddu, drefnu gosod tywyrch newydd ar wyneb y bedd. Caiff hefyd osod unrhyw garreg fedd neu gofeb yn gyfreithiol dan unrhyw ganiatâd a roddwyd gan y Cyngor. Oni wneir y gwaith hwn o fewn 18 mis ar ôl y gladdedigaeth, bydd gan y Cyngor yr hawl i

wastatáu a gosod tywyrch ar y bedd. Mae plannu bylbiau/llwyni ac ati ar y bedd yn rhwystro torri gwair yn effeithiol, ac felly ni chaniateir hyn.

### 13. COFEBION

Rhaid i bob Saer Meini Coffa gydymffurfio â chod ymarfer Cymdeithas Genedlaethol y Saer Meini Coffa.

#### i) Cofebion i'w cymeradwyo gan y Cyngor

Rhaid cael caniatâd y Cyngor i osod cofeb, ac y mae'n rhaid i'r sawl sy'n gyfrifol am y gwaith gyflwyno cynllun o'r gofeb gyda'r arysgrifen i'r Cyngor. Rhaid talu'r ffi angenrheidiol wrth gyflwyno'r cynlluniau a.y.b.

#### ii) Maint Cofebion (Ar wahân i'r Rhannau Lawnt)

Ni chaniateir cofebion sy' n fwy na 1200mm o uchder, 2100mm o hyd a 900mm o led ar feddau oedolion, a dylid eu gosod ar sylfaen ddiogel a wneir o garreg, llechen neu goncrid. Rhaid llunio cofebion o farmor, gwenithfaen llechen neu ddeunydd addas arall a gymeradwyir gan y Cyngor. Carreg fedd yn unig a fydd yn dderbyniol yn adran y plant, ond ni chaniateir iddi fod yn fwy na 600mm o led a 900mm o uchder.

Yn yr adran ar gyfer y marw-anedig, ni ddylai'r garreg fedd fod yn fwy na 600mm o uchder a 350mm o led.

#### iii) Torri a Llunio Cerrig a Chludo Cofebion

Ni chaniateir torri neu lunio cerrig yn y fynwent, a dylid cludo cofebion ac offer mewn dull na fydd yn peri difrod i lwybrau cyffredin a llwybrau glaswellt. Dylid defnyddio matiau, estyll neu blanciau os oes raid, er mwyn osgoi difrod o'r fath. Ni chaniateir codi cofebion y tu allan i oriau gwaith arferol y fynwent.

#### iv) Gosod Rhif y Bedd ar y Gofeb

**Rhaid** torri rhif a lleoliad man y bedd ar bob cofeb mewn llythrennau o leiaf 30mm o uchder, ar gost perchennog y bedd. (Os na wneir hyn, gellir gwrthod y cais).

#### v) Cynnal a Chadw Cofebion

Dylai perchnogion y cofebion eu cadw mewn cyflwr da. Hysbysir y perchnogion (os ydynt yn wybyddus) pan fo angen atgyweirio cofebion, ac oni atgyweirir hwy o fewn tri mis, bydd gan y Cyngor yr hawl i wneud cofebion yn ddiogel. Pe na ellir darganfod pwy yw'r perchennog, rhoddir y rhybudd cyhoeddus priodol am gyfnod penodol cyn codi'r gofeb.

#### vi) Cyfrifoldeb am Gofebion

Ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am ddifrod i unrhyw gofeb neu garreg fedd am unrhyw reswm.

- vii) Caniateir gosod marcwyr bedd pren dros dro am gyfnod o 12 mis ar ôl claddedigaeth. Wedi hyn, gall y Cyngor eu symud.
- viii) Ni cheir gosod unrhyw gofeb yn ystod cyfnod o 6 mis ar ôl y gladdedigaeth olaf. Er hynny, gellir rhoi heibio'r rheol yma pan fo'r gladdedigaeth olaf ar gyfer gweddillion amlogedig.
- ix) Mewn perthynas ag ail-agor bedd, dylai'r Trefnwyr Angladdau drefnu symud ymaith y garreg goffa a'r cyrbau o fewn yr amseroedd a ddangosir isod:-
  - a) O fewn 4 awr o gyflwyno'r rhybudd claddu.
  - b) Os cyflwynwyd y rhybudd claddu ar ôl 2.00 p.m., rhaid cwblhau'r gwaith erbyn 9.00 a.m. y dydd canlynol.

Caniateir i Seiri Meini Coffa hysbysebu ar y garreg fedd, and ni ddylai'r maint fod yn fwy na 80mm x 50mm.

#### **14. RHEOLAU MYNWENT LAWNT**

Bydd unrhyw ran newydd o fynwent, neu estyniad i fynwent bresennol, ar ffurf mynwent lawnt, ac fe fydd y rheolau isod yn berthnasol iddynt:-

- a) Ni chaniateir i fedd neu dwmpath bedd fod yn uwch na lefel y tir cyfagos, a gwastadheir pob bedd i'r un lefel â'r tir cyfagos cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl pob claddedigaeth.
- b) Wedi gwastatáu bedd i'r un lefel â'r tir cyfagos, bydd y Cyngor yn gosod tywyrch neu'n plannu gwelltglas arno a bydd yn cael ei gynnal a'i gadw ar gost y Cyngor.
- c) Ni chaniateir cofeb, carreg ymyl, carreg droed neu unrhyw strwythur, eitem neu ddefnydd arall ar y bedd ar wahân i:-
  - i) Un garreg fedd a godir ar ganol y bedd yn wynebu'r bedd, ar sylfaen wedi ei balmantu neu sylfaen o goncrid.
  - ii) Cawg cofeb a osodir yn ganolog ar y sylfaen o flaen y garreg fedd.
  - iii) Teyrngedau o flodau sydd wedi eu torri'n unig, a osodir yn y cawg cofeb.
  - iv) Mae plannu bylbiau/llwyni ac ati ar y bedd yn rhwystro torri gwair yn effeithiol ac felly ni chaniateir hyn.

Ni fydd y cyfyngiad ar deyrngedau o flodau yn cynnwys gosod torch o flodau neu unrhyw fath arall o deyrnged flodau ar fedd yn union ar ôl claddedigaeth fel rhan o'r angladd, ac am gyfnod o bythefnos wedi hynny.

- ch) Dylai pob carreg fedd gydymffurfio â'r mesuriadau canlynol:-
  - i) Uchder (uwchben lefel y sylfaen) ddim mwy na 1050mm, yr uchder i gynnwys sylfaen y garreg (os oes un).
  - ii) Lled - dim mwy na 800mm.
  - iii) Trwch- dim llai na 75mm a dim mwy na 150mm, ar wahân i garreg lechen a fydd a thrwch o ddim llai na 50mm.

## **15. TROSEDDAU**

1. Yn unol â'r detholiad canlynol a gymerwyd o Orchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977 (Erthygl 18).
2. Ni ddylai unrhyw berson:-
  - a) yn fwriadol achosi unrhyw aflonyddid mewn mynwent;
  - b) achosi unrhyw niwsans mewn mynwent;
  - c) yn fwriadol aflonyddu ar unrhyw gladdedigaeth yn y fynwent;
  - ch) yn fwriadol ymyrryd ag unrhyw fedd neu gladdgell, unrhyw garreg fedd neu gofeb arall, nac unrhyw flodau neu blanhigion neu unrhyw beth arall o'r fath; neu
  - d) chwarae unrhyw gêm neu sbort mewn mynwent.

## **16. PLANT A CHŴN**

Y mae'n rhaid i blant dan 12 mlwydd oed fod yng nghwmni oedolyn, a chaniateir cŵn yn y fynwent yn unig os ydynt ar dennyn.

## **17. COSBAU**

Bydd unrhyw berson sy'n torri Erthygl 18 o Orchymyn Mynwentydd Awdurdod Lleol 1977 yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy heb fod dros £100.00 ac yn achos trosedd sy'n parhau, dirwy heb fod yn fwy na £10.00 y dydd am bob diwrnod y parha'r drosedd ar ôl y gollfarn.